

FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR Y FFLINT
DYDD LLUN, 2 CHWEFROR 2015

Cofnodion Cyfarfod rhif 54 Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Llun, 2 Chwefror, 2015.

YN BRESENNOL:

Mr T. Birtles, Mrs V. Darby, Mr S.M. Gladwin, Mr B. Harrison, Mr J.A. Holiday, Mr N.J. Howell, Mr D.M. Hýtch, Mr M.W. Moriarty, Dr J. Rosenfeld, Mr G.B. Scragg, Mr E.G. Williams a Miss J.O. Williams.

YMDDIHEURIADAU:

Mrs A.J. Chamberlain a Mr H. White.

HEFYD YN BRESENNOL: Mr D.M. Davies, Ysgrifennydd y Fforwm; Mr T. Woodall, Pennaeth Gwasanaethau Cefn Gwlad Dros Dro; Mr S. Jones, Swyddog Hawliau Tramwy; Ms. S. Aldrige, Swyddog Mynediad; a Miss S. Thomas, Swyddog y Pwyllgor

Croesawodd yr Ysgrifennydd bawb i'r cyfarfod. Dywedodd mai ef a fyddai'n cadeirio'r cyfarfod gan na fyddai'r Cadeirydd na'r Is-Gadeirydd yn cael eu penodi tan y cyfarfod nesaf.

1. PENODI AELODAETH NEWYDD Y FFORWM

Dywedodd yr Ysgrifennydd fod yr aelodaeth newydd wedi'i hamlinellu yn y rhaglen a rhoddodd wybod wrth Aelodau fod eu cyfnod aelodaeth o dair blynedd yn dechrau ar ddyddiad y cyfarfod hwn. Yn y cyfarfod, dosbarthodd yr Ysgrifennydd nodiadau cryno yr oedd wedi'u paratoi am bwrpas y Fforwm, sut y penodwyd ei aelodau, cyfnod eu haelodaeth, diddymu aelodaeth, amlder cyfarfodydd y Fforwm a'r pynciau oedd i'w trafod yn y cyfarfodydd.

2. CYFLWYNIADAU

Gwahoddodd yr Ysgrifennydd bob aelod o'r Fforwm i roi cyflwyniad byr am ei gefndir a'i ddiddordebau, cyn belled â'u bod yn berthnasol i swyddogaethau'r Fforwm.

Dywedodd yr Ysgrifennydd fod modd i aelodau gysylltu ag ef pe baent yn dymuno codi unrhyw faterion a bod ei rôl ef ar y Fforwm yn dod i ben ar 31 Mawrth 2015.

3. COFNODION

Roedd cofnodion cyfarfod rhif 53 y Fforwm, a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2014, wedi eu dosbarthu i'r aelodau eisoes.

Materion yn codi

Cofnod Rhif 1 – Cofnodion/Materion yn codi

Adolygiad o Arferion Gwaith y Fforwm Mynediad Lleol

Dyweddodd Dr Jean Rosenfeld y byddai modd iddo adrodd yn ôl ar yr ymarferiad dadansoddi data yn ystod y cyfarfod nesaf, gan fod hwn ar raglen cyfarfod Cadeiryddion y Fforwm Mynediad Lleol yn Chwefror 2015.

Dr Rosenfeld i adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf y Fforwm ar ganlyniadau ymarferiad dadansoddi data Cyfoeth Naturiol Cymru.

Holodd Mr Neville Howell a unrhyw ddatblygiad ar y llwybr arfaethedig i gysylltu Llwybr yr Arfordir â Llwybr Clawdd Offa. Atebodd Mr Tom Woodall fod Mr Mike Taylor, yr Uwch Geidwad, wedi bod yn archwilio llwybrau posib dros gyfnod y Nadolig er mwyn i gamau cyntaf y gwaith gael eu cwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Byddai'n rhoi diweddariad am y llwybr yn ystod y cyfarfod nesaf.

Mr Woodall i roi diweddariad am y llwybr arfaethedig i gysylltu Llwybr yr Arfordir â Llwybr Clawdd Offa yn ystod y cyfarfod nesaf.

Cofnod Rhif 2 – Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Gofynnodd Mr Howell pwy oedd yn gyfrifol am gwblhau prosiect llwybr troed Argoed yn absenoldeb Mr Garry Hughes. Rhoddodd yr Ysgrifennydd wybod i'r Fforwm bod Mr Hughes wedi ymddeol o'r Cyngor. Cytunodd Mr Stuart Jones i wirio'r sefyllfa a rhoi diweddariad yn ystod y cyfarfod nesaf.

Diolchodd Miss Janet Williams i Mr Jones am arddangos y System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad (CAMS) iddi hi a Mrs Vera Darby.

Gofynnodd Dr Rosenfeld a oedd unrhyw swyddog yn gyfrifol am y mentrau a oedd yn cael eu hyrwyddo gan y Fforwm gyda chynghorau tref/cymuned bellach, yn dilyn ymadawriad Mr Hughes. Dywedodd yr Ysgrifennydd y byddai'n codi'r mater â Mr Andy Farrow, Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) cyn y cyfarfod nesaf, ynghyd â'r adolygiad disgwylidig o'r berthynas waith rhwng y Cyngor â'r Fforwm, a fyddai'n pennu faint o fewnbwn oedd yn briodol gan swyddogion. Dywedodd Mr David Hÿtch fod angen i swyddogion barhau i fod ar gael ar gyfer cyfarfodydd y Fforwm, gan fod hyn wedi bod yn ddefnyddiol.

Mewn ymateb i gynnig gan Dr Rosenfeld, cytunodd yr Ysgrifennydd i gysylltu â Mr Hughes er mwyn rhoi gwybod iddo fod Aelodau'r Fforwm yn gwerthfawrogi ei gefnogaeth a'i gyfraniad at y Fforwm.

Yn ystod diweddariad ar CAMS, dywedodd Mr Jones ei fod wedi cynnal sesiwn â Chymdeithas y Cerddwyr cyn y Nadolig a gofynnodd i aelodau'r Fforwm gysylltu ag ef os oedd arnynt eisiau cymryd rhan mewn sesiwn debyg, mewn grwpiau bach efallai. Er bod y system wedi cael ei gwella rhywfaint,

roddent yn dal i aros am gostau ar gyfer rhai diweddariadau a byddai'n rhaid aros am y rhain tan y flwyddyn ariannol nesaf. Dywedodd yr Ysgrifennydd fod y Fforwm wedi cael gwybod yn y gorffennol bod angen cywiro rhai gwallau yn CAMS, ond y byddai modd trefnu bod y system yn cael ei harddangos i'r Fforwm wedi i hynny ddigwydd. Nododd yr Aelodau eu bod yn parhau i ddymuno cael arddangosiad o'r fath.

Dywedodd Mr Jones fod adborth yn cael ei gasglu gan ddefnyddwyr CAMS fel bod modd gwneud newidiadau cyn rhoi arddangosiad yn y Fforwm. Awgrymodd mai'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer Ebrill 2015 fyddai orau ar gyfer arddangosiad o'r fath. Dywedodd yr Ysgrifennydd y byddai dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol yn cael eu pennu yn y cyfarfod nesaf, drwy ymgynghori â'r Cadeirydd, wedi iddo gael ei benodi.

Mr Jones i ofyn am ddiweddariad am unrhyw gynnydd a wnaed o ran cwblhau prosiect llwybr troed Argoed, ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

Yr Ysgrifennydd i ofyn i Mr Farrow pa swyddog(ion) sydd bellach yn gyfrifol am gyfrifoldebau blaenorol Mr Garry Hughes, a'i holi am yr adolygiad o berthynas waith y Cyngor a'r Fforwm.

Yr Ysgrifennydd i adael i Mr Hughes wybod am werthfawrogiad y Fforwm o'i gefnogaeth a'i gyfraniad.

Trefnu arddangosiad CAMS ar gyfer cyfarfod Ebrill 2015.

Cofnod Rhif 6 – Eitemau Posib ar gyfer Rhaglenni'r Dyfodol

Cytunodd yr Ysgrifennydd i ofyn eto am ymateb gan y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) ynghylch (a) cyflwyniad ar ddarpariaeth llwybrau troed a phalmentydd mewn ardaloedd gwledig, a (b) y pwynt a godwyd gan Mrs Darby sef bod angen cynnal ymylon ffyrdd er diogelwch, yn enwedig yn ochr ddwyreiniol y Sir.

Yr Ysgrifennydd i anfon nodyn atgoffa at y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) yn gofyn am ymateb i'r ddau fater a godwyd.

Cytunwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod rhif 53 y Fforwm, a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2014, fel cofnod cywir a'u harwyddo gan yr Ysgrifennydd yn rhinwedd ei swydd fel yr unigolyn oedd yn cadeirio'r cyfarfod.

4. ESBONIAD O'R WEITHDREFN AR GYFER PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y FFORWM

Ystyriwyd adroddiad gan yr Ysgrifennydd, a oedd wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw, ynghylch y weithdrefn ar gyfer penodi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

Gofynnodd yr Ysgrifennydd am enwebiadau ar gyfer y ddwy swyddogaeth erbyn diwedd y dydd ar 20 Chwefror 2015, sef y dydd Gwener cyn y cyfarfod nesaf. Dywedodd mai'r rhagdybiaeth fyddai bod ymgeiswyr eisiau cael eu hystyried ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd pe baent wedi ymgeisio ar gyfer swydd y Cadeirydd ond wedi bod yn aflwyddiannus. Awgrymodd y dylai aelodau oedd yn dymuno enwebu unigolion eraill ar y Fforwm sicrhau bod yr unigolion hynny'n gwybod am yr enwebiad, drwy anfon copi o'r neges e-bost atynt er enghraifft.

Cytunwyd y byddai enwebiadau ar gyfer dwy swydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn cau ddydd Gwener, 20 Chwefror 2015, fel bod modd i'r Fforwm benodi unigolion i'r swyddi yng nghyfarfod dydd Llun, 23 Chwefror 2015.

5. EITEMAU POSIBL AR GYFER RHAGLENNI'R DYFODOL

Esboniodd yr Ysgrifennydd fod hon yn eitem sefydlog ar y rhaglen, er mwyn rhoi cyfle i aelodau awgrymu eitemau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Gwahoddodd aelodau, er gwaethaf presenoldeb yr eitem sefydlog hon, i gysylltu ag ef yn uniongyrchol os oeddynt yn ystyried y dylai pwnc penodol gael ei drafod gan y fforwm neu'n destun adroddiad ar ei gyfer.

Dywedodd yr Ysgrifennydd fod y canlynol yn eitemau sefydlog a fyddai'n ymddangos ar bob rhaglen yn y dyfodol:

- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Darpariaeth ar gyfer beicio yn Sir y Fflint
- Is-grŵp Marchogaeth Ceffylau y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Byddai'r canlynol yn destun adroddiadau i'r Fforwm maes o law:

- Cyflwyniad byw ar CAMS (cyfarfod Ebrill 2015)
- Adolygiad o Drefniadau Gweithio rhwng y Cyngor Sir a'r Fforwm
- Deddf Teithio Egnïol (Cymru) 2013
- Darparu llwybrau troed ar ochr y ffordd a phalmentydd mewn ardaloedd gwledig
- Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar fynediad (cyfarfod Chwefror 2015)
- Gwahodd cynrychiolydd o Bartneriaeth Llwybr Plwyf Swydd Amwythig (aelod Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam i roi enw cyswllt i'r Ysgrifennydd) i drafod llwyddiant eu gwaith ar lwybrau troed, ynghyd ag aelod o dîm Hawliau Tramwy y Cyngor Sir
- Adolygiad o'r broses ymgynghori â'r adran Gynllunio ar geisiadau sy'n berthnasol i'r Fforwm

(h) Mynediad at Lwybr yr Arfordir a chynlluniau ar gyfer gwelliannau pellach

(i) Amddiffyn yr arfordir rhag llifogydd: Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfeiriodd Mr Michael Moriarty at ddifrod a achoswyd i Lwybr yr Arfordir o ganlyniad i lifogydd blaenorol yn y sir, ac awgrymodd y byddai'n fuddiol cael cyflwyniad am y Cynllun Rheoli Traethlin a oedd wedi'i fabwysiadu'n ddiweddar gan y Cyngor Sir. Yn dilyn awgrym gan Mr Woodall, cytunodd yr Ysgrifennydd i gysylltu â Mr Ruairi Barry o Adain Ddraenio'r Cyngor Sir i gael rhagor o wybodaeth.

Gofynnodd Mr Hÿtch a fyddai'n bosib i'r eitem hon gynnwys trafodaeth ar y cynnig i symud y llwybr beicio yng nghyffiniau pont Penarlâg oherwydd llifogydd ar y llwybr. Dywedodd yr Ysgrifennydd y byddai'n darganfod p'un ai Mr Barry oedd yr unigolyn priodol i ddarparu'r wybodaeth honno ai peidio.

Yr Ysgrifennydd i ddarganfod pwy fyddai'r swyddog priodol i fynychu cyfarfod ynghylch y mater hwn yn y dyfodol.

(j) Ymgysylltu â chynghorau tref/cymuned

Cafwyd trafodaeth fer ynghylch gwella ymgysylltu'r Fforwm â chynghorau tref/cymuned er mwyn annog y cynghorau hynny i ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus yn eu hardaloedd. Awgrymodd Mr Howell y dylid cael trafodaeth agored fwy manwl am y mater yng nghyfarfod nesaf y Fforwm. **Cytunwyd â hyn.**

Cytunodd y Fforwm i nodi'r eitemau hyn er mwyn eu hystyried yn ystod cyfarfodydd yn y dyfodol.

6. AMSER A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF A CHYFARFODYDD Y DYFODOL

Dywedodd yr Ysgrifennydd fod cyfarfod nesaf y fforwm wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun, 23 Chwefror 2015 am 2.00pm a bod cyfarfodydd, hyd yn hyn, wedi cael eu cynnal bob chwarter blwyddyn fel arfer. Pe bai'r Fforwm yn dymuno cwrdd yn fwy aml, byddai modd iddo wneud hynny yn ôl yr angen.

Gofynnodd yr Ysgrifennydd a fyddai'n well gan unrhyw aelodau eraill gael copiâu electronig o'r rhaglen, heblaw'r rhai oedd wedi dweud hynny wrtho eisoes. Atebodd Mr Stephen Gladwin, Mr John Holiday a Mr Gareth Williams y byddai'n well ganddynt wneud, a rhoddodd y tri eu cyfeiriadau e-bost iddo.

Rhoddodd yr Ysgrifennydd wybod i aelodau fod cyfarfodydd wedi eu cynnal ar brynawn dydd Llun yn Neuadd y Sir yn flaenorol, ac y bu presenoldeb da ynddynt ar y cyfan. Roedd yn gwerthfawrogi fod gan bob Aelod ymrwymïadau gwahanol a gofynnodd a oedd unrhyw un o blaid newid y trefniant hwn.

Cyfeiriodd rhai Aelodau at drefniadau Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam, lle'r oedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn lleoliadau gwahanol ar draws y sir. Er bod y rhai oedd yn bresennol yn cydnabod bod yna fanteision i hyn, roedd yn codi problemau hefyd o ran presenoldeb swyddogion, argaeledd parcio a goblygiadau o ran cost.

Awgrymodd Mr Barry Scragg y byddai modd ystyried Neuadd y Sir yn brif ganolfan i'r Fforwm, ac ystyried cynnal un neu ddau gyfarfod mewn mannau eraill yn ystod y flwyddyn. Siaradodd Mrs Darby o blaid y syniad hwn.

Soniodd rhai o'r aelodau am yr angen i godi ymwybyddiaeth am gyfarfodydd y Fforwm er mwyn annog y cyhoedd i'w mynychu, a'r posibilrwydd o rannu cofnodion/eitemau'r rhaglen â'r wasg leol er mwyn hybu diddordeb. Cytunodd yr Ysgrifennydd gysylltu â'r wasg leol er mwyn ymchwilio i'r awgrym hwn ac er mwyn cael gwybod beth fyddai cost unrhyw hysbyseb.

Mewn ymateb i sylwadau ar godi ymwybyddiaeth o waith y Fforwm drwy adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn, nododd yr Ysgrifennydd fod cofnodion cyfarfodydd y Fforwm ar gael drwy ddolen ar wefan y Cyngor Sir.

Yn dilyn awgrym gan Mr Birtles i ddefnyddio newyddlenni cymunedol er mwyn cyhoeddi gwybodaeth am y Fforwm, cytunodd yr Ysgrifennydd i gynnwys eitem ar raglen y cyfarfod nesaf ynghylch ymgysylltu â'r Fforwm.

Yr Ysgrifennydd i holi a fyddai gan y wasg leol ddiddordeb mewn cael gwybodaeth am y Fforwm a'i chyhoeddi, a chanfod a fyddai unrhyw gost am wneud hyn. Eitem ar wella proffil y Fforwm i'w chynnwys ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Cytunodd y Fforwm y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Llun, 23 Chwefror 2015 ac y barhau i gwrdd ar brynhawn dydd Llun yn Neuadd y Sir.

7. UNRHYW FATER ARALL

Rhoddodd Mr Hÿtch wybod i'r Fforwm am gynnydd Cyd-Bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, oedd â chynrychiolaeth o gynghorau Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych. Roedd y Pwyllgor wedi ceisio penodi unigolion (yn hytrach na chynrychiolwyr) i bartneriaeth yr AHNE, oedd i ddisodli'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol blaenorol, ac roedd hyn yn golygu bod cyfle i gynnal cyswllt rhwng y Fforwm a'r AHNE. Dywedodd rhai aelodau eu bod wedi ymgeisio ar gyfer aelodaeth y Bwrdd cyn y dyddiad cau.

Awgrymodd Mr Howell y dylid rhannu manylion cyswllt aelodau'r Fforwm. Cytunodd yr Ysgrifennydd i ddsbarthu'r rhain drwy e-bost.

Yr Ysgrifennydd i ddsbarthu manylion cyswllt i bawb sy'n aelodau o'r Fforwm.

8. HYD Y CYFARFOD

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.05pm.

.....
Ysgrifennydd (y sawl a fu'n cadeirio yn y cyfarfod)